



## **“Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fodd” Luc 2:14**

Ers canrifoedd mae pererindotwyr wedi teithio tua Ynys Enlli yn eu miloedd wedi eu denu gan y sicrwydd o harddwch cread Duw yn ymestyn o'r mynyddoedd i'r arfordir a chyrraedd man o heddwch. Mae'r llwybr heddiw wedi ei fapio a'i farcio ac yn eich arwain drwy goedwigoedd, dros afonydd, i fyny mynyddoedd ac ar hyd llwybrau arfordirol a phob amser yn arwain i mewn i bentrefi ac eglwysi. Mae'r traddodiad yn parhau hyd heddiw gyda pererindotwyr yn cerdded y llwybr fel modd i ail-gysylltu â'u ffydd, ail-gysylltu â natur ac mae cerdded ei hun yn falm i'r corff a'r enaid fel gweithred o feddwlgarwch. Mae'n gyfle i bwylo, i weld y llun ehangach wrth adael prysurdeb bywyd a chanolbwytio ar bob cam wrth fynd ar hyd y llwybr.

Cysylltu gyda'r heddwch yma ysgogodd y Parch Nan Wyn Powell-Davies, Cadeirydd, a'r Parch Andrew Sully, Pennaeth Dros dro y mudiad yng Nghymru, i drefnu i gerdded rhan o'r llwybr o Fangor i Aberdaron er budd gwaith Cymorth Cristnogol mewn cymunedau bregus o dlodi a rhyfel dros y byd.

“Dwi'n edrych ymlaen at y cyfle i gerdded a gweddio dros heddwch yn rhymor yr Adfent pan rydyn ni'n paratoi at ddathlu geni Iesu, Tywysog Tangnefedd,” meddai Andrew wrth feddlw am y daith.

Dyma Nan yn rhannu am ei chymhelliad hithau ar gyfer y daith:

“Dw i'n edrych ymlaen yn fawr i gael y cyfle arbennig yma dros gyfnod yr Adfent i bererindota ar lwybr y pererinion.

“Mae sefyllfa rhyfeloedd ein byd, yn enwedig yn Gaza ar hyn o bryd, yn ein dychryn ni i gyd. Yn ystod y daith, fe ddaw cyfle i ni ymuno gyda chymunedau, eglwysi ac unigolion i ganu carolau ac i ryfeddu o'r newydd at gysur yr angylion ar y Nadolig cyntaf i'r bugeiliaid: ‘Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fodd.’ Mae'r addewid byw yma yn gysur i ninnau i gyd eleni hefyd. Codwn lais felly yn erbyn anghyfiawnderau'r rhai gwannaf yn ein byd, a rhyfeddwn wrth gael ein cymell ninnau bob un i ymlwybro dros y Nadolig i'r llety llwm ym Methlehem.”

Yn oes y pererindotwyr cynharaf roedd croeso a man cynnes yn eu disgwyl mewn pentrefi ac eglwysi ar hyd y ffordd. Felly hefyd gyda'r daith nodedig hon, gyda'r nod o gyrraedd nifer o bentrefi a chael cyfarfod â nifer mwy o gefnogwyr Cymorth Cristnogol dros y chwe diwrnod o'r 4ydd hyd at 9fed Rhagfyr 2023. Mae trefniadau yn eu lle i gynnal Boreau Coffi neu Fyfyrdod Carolau bob dydd. Os ydych chi'n lleoli i un o'r digwyddiadau yn y rhaglen, yna mae croeso mawr i chi alw heibio i ddymuno'n dda i'r ddau ar eu taith.

Ar wahân i gasgliadau o ddydd i ddydd, mae modd noddi Nan ac Andrew ar lein drwy ymweld â'r dudalen [JustGiving](#) fydd yn cael ei rhannu gan Gymorth Cristnogol ar y cyfryngau cymdeithasol.

Felly ymunwch gyda ni i oleuo'r daith y Nadolig hwn i'n brodyr a'n chwiorydd ar draws y byd a chynnal y gobaith am heddwch a chyfiawnder i bawb.

| Dyddiad | Cychwyn                                                                                             | Cyfarfodydd                                         | Cyfarfodydd Nos a Phnawn Olaf y Daith                                                                                                  |
|---------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 4/12/23 | 9.00 Cadeirlan Bangor<br>Ffarwelio a dymuno'n dda i'r cerddwyr                                      | 10.30/11.00 Bore Coffi<br>Capel Jerusalem, Bethesda | Myfyrddod Carolau<br>Eglwys Sant Padarn<br>Llanberis (yr amser i'w drefnu)                                                             |
| 5/12/23 | 9.00 Gadael Llanberis                                                                               | 10.30/11.00 Waunfawr                                | Myfyrddodau Carolau am 5 o'r gloch<br>Capel y Groes<br>Pen-y-groes                                                                     |
| 6/12/23 | 8.00 Gadael Pen-y-groes                                                                             | 12/12.30 cyrraedd<br>Eglwys Clynnog Fawr            | Myfyrddod Carolau<br>i'w drefnu yn Nefyn                                                                                               |
| 7/12/23 | 9.00 Gadael Nefyn                                                                                   | 1.00 Bore Coffi<br>Capel MC Tudweiliog              | Myfyrddod Carolau am 7 o'r gloch<br>Eglwys Maesyneuadd<br>Trefor                                                                       |
| 8/12/23 | 9.00 Gadael Tudweiliog                                                                              |                                                     | Myfyrddod Carolau<br>Eglwys Sant Hywyn<br>Aberdaron (yr amser i'w drefnu)                                                              |
| 9/12/23 | <b>Diwrnod Ymgynnull COP28 yn Pontio Bangor</b><br>Diwrnod i godi llais dros anghyfiawnder hinsawdd |                                                     | 1.30 gweithdy gwneud placardiau<br>2.30 cerdded at y cloc ym Mangor<br>3.30 siaradwyr ifanc ar anghyfiawnder<br>hinsawdd nôl yn Pontio |

## Adnoddau Nadolig Cymorth Cristnogol



Mae pob merch yn haeddu'r cyfle i godi allan o dlodi, ac yn Bangladesh mae merched ifanc yn goleuo'r daith i eraill yn eu cymunedau.

Ardal Kurigram yng ngogledd Bangladesh yw un o'r ardaloedd tlotaf yn y wlad ac mae hefyd yn dioddef llifogydd difrifol. Mae bywyd yma'n heriol iawn, ac mae'r cyfleoedd i ferched hyd yn oed yn fwy heriol.

Wrth edrych yn ôl mae Kakoli Khatun, 21 oed, o Kurigram yn cofio: 'Doedd gen i ddim breuddwydion ychydig flynyddoedd yn ôl. Er mwyn gwneud unrhyw beth roedd yn rhaid i mi ofyn am arian gan fy nhad a'm brodyr.'

Heddiw, mae Kakoli yn rhannu ei hamser rhwng rhedeg busnes llewyrchus ac astudio ar gyfer ei gradd yn y coleg.

Mae Kakoli wedi dod o hyd i gymuned o ferched eithriadol o ddawnus – crefftwyr ac entrepreneuriaid – sydd wedi sefydlu busnes i werthu eu cynnyrch hardd ar lein. Mae'r merched yma wedi trawsnewid eu cymuned.

Gall eich rhoddion dros y Nadolig helpu merched fel Kakoli i lunio'u dyfodol disglair.

Mae'r ddolen isod yn cynnwys adnoddau Saesneg i'ch helpu i oleuo'r ffordd i eraill y Nadolig hwn. Bydd adnoddau Cymraeg ar gael yn fuan:

[Christmas Appeal 2023](#) | [Christian Aid](#)

**Llinos Roberts**

Swyddog Ysgogi Eglwysi a Chodi Arian Cymru

[caid.org.uk](http://caid.org.uk) | 01248 719124 | 07778 109460 |

[lroberts@christian-aid.org](mailto:lroberts@christian-aid.org)

## Sul Cyntaf yr Adfent – 3 Rhagfyr

### Gweddïau Adfent



Sanctaid a bendigaidd Drindod, fflam ein bywydau a goleuni yn ein tywyllwch, bydd gyda ni ar y daith o'n blaenau bob

cam i'r preseb. Crëwr y sêr uwchben, arwain ni gyda'n calonnau'n agored i groesawu mab Mair.

Wrth gofio'r Geni yng nghanol y tlawd a'r difreintiedig, gad i ni gofio'r merched cryf a chreadigol yn Bangladesh wrth iddyn nhw arloesi a dyfalbarhau er mwyn trawsnewid eu bywydau a bywydau eu teuluoedd.

Wrth benlinio gyda'r bugeiliaid yng ngoleuni'r côr angylaid, gad i ninnau lawenhau yn y Newyddion Da, a dathlu bod ein Duw yn dyrchafu'r gorthrymedig ac yn dymchwel grymoedd y ddaear.

Wrth ymuno â'r doethion ar eu pererindod, gad i ninnau dod â rhoddion

at y preseb, fel y gallwn gydsefyll â merched y byd wrth iddynt gydweithio er eu lles eu hunain, eu teuluoedd a'u cymunedau.

Wrth i'r ddaear ddal ei gwynt ar drothwy'r greadigaeth newydd, trwy ras y Forwyn Fair, rhown diolch am ras a chariad merched Bangladesh wrth iddynt ymdrechu i greu dyfodol gwell.

Cofiw'n fod ffydd, gobaith a chariad yn cael eu cynnig i ni yn stori'r Geni, a rhoddwn ddiolch o hyd ein bod yn cael ein galw i chwarae ein rhan ni yn y stori hon. Amen.

*Parch. Sara Roberts  
Bethesda*

## Gofalaeth Caron yn troedio llwybrau Bwlch-llan



Tro Capel Bwlch-llan oedd trefnu'r Daith Gerdded eleni ac roedd y paratodau yn eu lle i'n haelodau i gyd, gyda rhai'n mentro mas i'r cawodydd dan arweiniad Meleri a Meira. Tywyswyd criw da o aelodau a ffrindiau o festri'r capel i Eglwys Nantcwnlle a chylchdaith o ddwy filltir a hanner dros dirwedd amrywiol.

Roedd prynhawn diddorol o hanes lleol crefydd wedi ei baratoi yn y festri gan y Parch. Stephen Morgan a Bronwen Morgan. Gwelwyd cyflwyniad o lefydd perthnasol i hanes yr Achos – Pantybeudy, Bwlchdiwyrgam, Ty'n-rhos, ac enwi dim ond rhai. Diddorol fu clywed hanes Daniel Rowland, Dafydd

Jones (Gwallt Hir), y teulu Noakes a'r llu fu'n ddylanwadol yn yr ardal. Rhannwyd straeon a dogfennau dadlennol yn cwmpasu helyntion – o'r lleol i dalaith Ohio.

Roedd tîm o ardalwyr wedi dod ynghyd i sicrhau llwyddiant y prynhawn. Diolch iddynt bob un. Roedd y cyfle i gymdeithasu, holi a gwrando dros gwpanaid o de yn werthfawr. Yr 'eglwys ar waith yn y gymuned' go iawn. Mae casgliad yr ofalaeth eleni yn mynd tuag at yr Uned Strôc a'r Banc Bwyd Lleol. Diolch am bob cyfraniad.

*Eirwen James*

## Gwasanaeth Diolchgarwch Chwiorydd Henaduriaeth Myrddin

Brynhawn Mawrth, 24 Hydref, cynhaliwyd Oedfa Ddiolchgarwch gan Chwiorydd Henaduriaeth Myrddin yn y Babel Zion Newydd, Pen-sarn, Caerfyrddin.

Estynnwyd croeso twymgalon i bawb gan y Llywydd, Mrs Elizabeth Jackson, cyn cydadrodd y Datganiad.

Dilynwyd yr oedfa sydd wedi'i chynnwys yn rhaglen Dorcas: *Bywyd yn Iesu*, y *Wir Winwydden*.

Cymerwyd rhan gan chwiorydd Dosbarth Tywi Cothi; Dosbarth Caerfyrddin; Dosbarth y Gwendraeth a Dosbarth yr Arfordir. Fe'n cynorthwywyd gan Mrs Carole Rees wrth yr organ, a bu'r Parch. Emyr Williams yn ein cefnogi, fel arfer, gyda'i gymorth technegol yn ychwanegu at fendith y cyfarfod.



Diolchodd y Llywydd i bawb am eu presenoldeb ac am eu parodrwydd i gymryd rhan er mwyn helaethu llwyddiant y gwasanaeth.

Yn dilyn yr oedfa cafwyd cyfle pleserus a gwerthfawr i gymdeithasu dros luniaeth ysgafn.

*Elinor Wyn Nicholson*

## Ganwyd Crist!

Dewch i weld dros ddau gant o bresebau o Brydain a thros y byd. Fe'u casglwyd gan Nia a Garth Higginbotham dros y blynyddoedd. Mae yna rai bach a mawr, traddodiadol a modern o bob cyfandir.

Dydd Sul, 3 Rhagfyr, 2 tan 6 o'r gloch  
36, Abbey Road, Llandudno

Darperir mins peis a gwin sbeislyd

Casgliad ar gyfer Cymorth Cristnogol, elusen sy'n gweithio dros gyfiawnder, heddwch a gobaith i'r rhai mewn tldi a rhyfel.



## Oedfa Garolau Nadolig

Pwyllgor Chworydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Nos Lun Rhagfyr 11eg 2023

am 7 o'r gloch dros zoom

ar y thema

# 'Adnabod Iesu'



Cysylltwch gyda'r swyddfa i dderbyn y linc: 01678 520 065 / [eirian.roberts@ebcpcw.cymru](mailto:eirian.roberts@ebcpcw.cymru)

## Cydweithio mewn ffydd

Daeth Wythnos Ryng-ffydd Prydain – wythnos sydd wedi ei dynodi'n flynyddol i nodi ac i ddathlu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan sefydliadau rhyng-ffydd trwy'r wlad – i ben yn gynharach yn y mis. Roedd yn dechrau ar Sul y Cofio (12 Tachwedd) ac yn gorffen ddiwedd yr wythnos honno. Er hynny, nid yw'r gwaith yn gorffen – mae hwnnw'n digwydd yn barhaus drwy gydol y flwyddyn.

Eleni, bu'n wythnos bwysig yng Nghymru gan fod Cyngor Rhyng-ffydd Cymru yn dathlu 20+ ers ei sefydlu. Ie, 20+. A hynny, yn syml iawn, am fod y garreg filltir fawr wedi digwydd yn ystod cyfnod COVID-19 heb i'r un ohonom sylwi. Rwy'n hynod o falch o gael y cyfle i gynrychioli'r Undodiaid ar y pwyllgor ers yn agos i ddeng mlynedd bellach ac yn gwerthfawrogi'n fawr y ffrindiau agos o bob ffydd sydd gennyf fel cydaelodau.

Sefydlwyd y Cyngor yn sgil 9/11 gan nifer fach o bobol. Ond y person oedd fwyaf cyfrifol am y gwaith oedd y cyn Brif Weinidog, y diweddar Rhodri Morgan. Teimlai'n gryf fod angen cryfhau'r berthynas dda oedd yn bodoli yng Nghymru rhwng y gwahanol gymunedau ffydd, ac nid oedd am weld y berthynas yn dirywio oherwydd y drasedi yn Efrog Newydd. Bu'n ysbrydoliaeth ac yn gefnogwr cryf i'r Cyngor o'r dechrau, fel mae ein Prif Weinidog presennol.

Felly, nos Iau, 16 Tachwedd, daeth dros ddau gant o bobl ynghyd yn Eglwys



Iesu Grist Saint y Dyddiau Diwethaf yn Rhiwbeina, Caerdydd, i ddathlu. Roedd hi'n noson hyfryd gydag annerchiadau gan nifer o westeion arbennig, canu, dawnsio a drymio, gan orffen drwy rannu pryd o fwyd blasus dros ben wedi ei baratoi gan y gymuned Hindŵaidd.

Agorwyd y noson gan Gôr y Cyngor yn canu detholiad o wahanol ganeuon 'crefyddol' neu 'ysbrydol' ac yn cael ei arwain gan Natalie Davies o Undodiaid Caerdydd. Cafwyd caneuon o draddodiadau amrywiol – Islam, Hindŵaeth, Iddewiaeth, Cristnogaeth, paganaidd, traddodiadau brodorol, yn seiliedig ar y ddaear, pantheistig a phanentheistig – y cyfan wedi'u gwau gyda'i gilydd ac yn cyfuno mewn harmoni.

Yn ystod y noson cafwyd canu 'gospel' Cristnogol, cân gan y gymuned Ba'hai, drymio gan y gymuned Sikh, dawns

glasurol Indiaidd a nifer o berfformiadau ac esiamplau o addoliad gan y gwahanol gymunedau.

O ran yr annerchiadau, diolchodd Jeremy Miles AS i'r Cyngor am ei gymorth cyson, ac yn enwedig ei gyfraniad yn ystod paratoi'r cwricwlwm newydd. Cafwyd annerchiad gan Julie Morgan AS a nododd pa mor falch fyddai Rhodri wedi bod o weld sut mae'r Cyngor wedi datblygu erbyn hyn. Bu Jane Hutt AS yn siarad am ei phrofiad hi o gydweithio â'r Cyngor a pha mor bwysig yw'r gwaith o greu ysbryd o gyfeillgarwch rhwng y cymunedau ffydd o safbwynt y Llywodraeth.

Uchafbwynt y noson oedd annerchiad gan gyn-Archegob Cymru, Dr Rowan Williams, a fu'n sôn am hanes a chefnidir sefydlu'r Cyngor. Yr oedd yn Efrog Newydd pan dderbyniodd yr alwad oddi wrth Rhodri Morgan yn gofyn iddo ddod i'w helpu, ac roedd yn falch dros ben ei fod wedi gwneud hynny.

Bu'n noson fendigedig gyda phawb yn mwynhau yng nghwmni ei gilydd, yn profi cyfeillgarwch, goddefgarwch a chariad at gyd-ddyn, a'r cyfan yn achos balchder i'r Cyngor Rhyng-Ffydd wrth weld yr hyn sydd wedi datblygu yng Nghymru.

*Melda Grantham*

Gallwch gael mwy o wybodaeth am Gyngor Rhyng-ffydd Cymru (The Inter Faith Network, IFN) drwy glicio ar y ddolen: <https://www.cytun.co.uk/.../gwybodaeth-am-rhyng-ffydd-cymru/>

(Ymddangosodd gyntaf fel e-fwletin Cristnogaeth21; 19 Tachwedd 2023)

## Gofalaeth Bro Cemaes Dyffryn Teifi Oedfa Cyflwyno Plant yn Ebeneser Dyfed

Ar ddiwrnod Tân Gwylt cawsom oedfa llawn hwyl a sbri yn Ebeneser. Cyflwynodd Rhodri a Lisa Donne eu plant, Tomos ac Elan, i'r capel.

Cawsom neges am y pwysigrwydd o ddangos eich goleuni i'r byd trwy ddefnyddio 'glowsticks'. Roedd yna lawer o chwerthin wrth i'r plant ymateb i Sian Elin ar sut i ddangos cariad a goleuni i'r byd. Ac i ddweud diolch am eu cyfraniadau, cawsom nhw siocled yr un.

Diolchwn i Dduw am y teulu bach yma sydd wedi dod yn rhan pwysig o'r achos yma yn Ebeneser.



# Gair Duw ar Waith

## gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrddau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 10

Lobïo dros heddych

Genesis 26: 12-22 | 3 Rhagfyr

### Gweddi

Arglwydd, gwyddost am ein gofidiau wrth inni glywed rhethregy gwleidyddion yn sôn am lywodraeth Gogledd Korea yn profi eu harfau yn groes i ganllawiau'r Cenhedloedd Unedig. Helpa ni i feddwl am yr hyn y gallwn ei wneud dros heddych byd. Amen.

### Darlleniad: Genesis 26: 12-22

### Cyflwyniad

Bydd Iddewiaeth yn gyson yn cyfeirio at Dduw fel 'Duw Abraham, Isaac a Jacob', a hynny fel modd o gofio bod y genedl wedi ymddiried yn Nuw ers y cyfnod cynharaf un. Cyfeirir at Abraham, Isaac a Jacob fel y patriarchiaid, a bod eu ffydd hwy yn Nuw yn esiampl gyson. Mae'r darlleniad heddiw yn enghraifft o ffordd Isaac o ymwrthod â rhyfel mewn ffordd ddi-drais ond yn ennill heddych yn y tymor hir.


Prin bod Iddewiaeth wedi dilyn meddylfryd Isaac, a chyfiawnhawyd grym militaraidd fel ffordd gyfiawn yn eu golwg. Mae heddychwyr ymhlith lleiafrif yr eglwys Gristnogol, ond prin bod perthyn i leiafrif yn gwneud eu daliadau yn llai dyls na daliadau unrhyw un arall. Ceir digon o gyfeiriadau at ryfel yn yr Hen Destament, ac mae hanes y genedl yn hynod waedlyd. Hyd ein cyfnod ni, gwelodd yr Iddewon lawer o dywallt gwaed ac erledigaeth yn eu hanes.

### Myfyrdod

Nodwyd mewn pennod flaenorol fod yr eglwys yn ystyried dadlau dros heddych fel rhan o'i chenhadaeth. Dyfynnir yn aml eiriau Martin Niemöller (1892-1984), gweinidog Lutheraidd yn yr Almaen a gefnogai Hitler yn wreiddiol ac na safodd dros y sosialwyr a'r Iddewon pan oeddent yn cael eu herlid. Pan ddaeth y fyddin ar ei ôl ef, sylweddolodd ei gamgymeriad pan nad oedd unrhyw un ar ôl i sefyll drosto ef. Prin y byddai Martin Luther King am ddadlau dros fod yn dadedog, ond galwodd ar yr eglwys i godi llais dros werthoedd heddych a hyrwyddo'r agwedd ddi-drais wrth wneud hynny.

Nid pawb sy'n medru mynd ar ymgyrchoedd neu brotestiadau, ond gall pawb dorri ei enw ar ddeiseb, neu anfon gair at Aelod Seneddol a siarad dros ymatal rhag meddylfryd militaraidd. Yng nghyd-destun y rhyfeloedd cyfredol ar diroedd Wcráin a Gaza, bydd y mwyafrif helaeth o'n plith yn teimlo'n gwbl ddiymadferth, ond byddai anfon llythyr at y Prif Weinidog yn Rhif 10 Stryd Downing yn un ffordd o ychwanegu at y llais dros heddych. Pan fydd pobl yn lobïo gydag argyhoeddiad, a bod llawer yn gwneud hynny, yna bydd gwladweinwyr democrataidd yn cymryd sylw. Mae un llythyr yn bwysig, ond 'pan dry yr un yn gannoedd ac yn filoedd ...'

Gŵyr Siapan yn iawn beth ddigwyddodd yn Hiroshima a Nagasaki, a gallai'r byd



heddiw weld sefyllfa llawer gwaeth, oni bai fod ewyllys byd yn hawlio hedd.

### Gweddi

Drugarog Dad, gweddiwn am heddych ledled byd ac yn arbennig am weld ymatal rhag cynnydd yn rhethreg gwleidyddion. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried

1. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng perthynas Isaac o Dduw Israel a phrofiad Dafydd ohono?
2. A yw Duw yn addasu ei hun i amgylchiadau pobl, neu a yw pobl yn addasu eu hunain i bresenoldeb Duw?
3. A yw'n haws moli Duw mewn cyfnod o lawnder a llwyddiant nag ar adegau mwyaf stormus bywyd?
4. A fydd eich eglwys yn lobïo dros heddych heddiw?
5. Beth ddylai blaenoriaethau'r Arglwydd Cameron, yr Ysgrifennydd Tramor newydd, fod wrth gyfarfod â swyddogion cyfatebol gwledydd arfog y byd?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol  
Sul, 3 Rhagfyr  
Dim rhaglen

radio cymru

Caniadaeth y Cysegr  
Sul, 3 Rhagfyr, am 7:30yb a 16:30yp  
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r cerddor Eric Jones  
Sul, 3 Rhagfyr, am 12yp  
Oedfa dan arweiniad Peter Thomas, Aberystwyth

# Cofio canrif o waith Duw yng Nghapel Bethany, Rhydaman



Bethany, Rhydaman, agorwyd 1929



Oedfa Datgorffori - teuluoedd Nantlais, JD a Gareth Davies

Mewn cyfarfod o'r aelodau yn yr haf fe benderfynwyd cau capel Bethany, Rhydaman, yn yr hydref. Dyma ddiwedd cyfnod o waith sylweddol Duw yn sir Gaerfyrddin, felly. Mae tristwch wastad pan fo capel sydd wedi arddel yr efengyl yn cau, ond mae'n gyfle hefyd i gofio a diolch.

## Y byd a'r Betws?

Yn y Betws, nid yn Rhydaman, y mae gwreiddiau Bethany, mewn gwirionedd, gydag ymweliad Howell Harris ym 1740. Dywedir iddo bregethu mewn tŷ o'r enw 'Argoed' a ddaeth yn grud i Fethodistiaid y cylch, ac allan o'r cynulliad hwn y sefydlwyd Capel MC Seion. Erbyn diwedd y 19fed ganrif roedd pentref newydd Cross Inn (fel y gelwid Rhydaman bryd hynny) wedi dechrau tyfu'n gyflym, a gwelodd aelodau Seion yr angen i sefydlu capel yno. Ym 1881 felly fe agorwyd Capel Bethany.

Pam yr enw Saesneg – 'Bethany'? Mae'n bosib mai dechrau achos Saesneg oedd y bwriad gwreiddiol, ond nid yw'r hanes yn glir. Roedd gan Dduw ei gynllun, fodd bynnag, a chapel Cymraeg newydd yn nhref newydd Rhydaman fyddai Bethany.

## Cyfraniad Capel Bethany

Mae cymaint i'w ddweud am ganrif o waith ym Methany. Gallaf rannu atgofion personol am ffydd, cariad a hiwmor yr aelodau, a chof plentyn o weinidogaeth Gareth Davies. Am nawr, dyma gyfle i ystyried rhai o brif gyfraniadau Bethany dros y blynyddoedd.

### 1. Pwyslais ar dröedigaeth a diwygiad

Mae'n nodedig bod tri pherson a gysylltir yn annatod â Bethany wedi cael profiadau anarferol o waith yr Ysbryd Glân. Byddai'r angen am dröedigaeth a phrofiad personol o'r Arglwydd Iesu yn dod yn ganolog i holl weinidogaeth Bethany.

Ganed John T. Job yn Llandybïe yn 1867 ac roedd ei fam, Mary, yn aelod flaenllaw a duwiol yn nyddiau cynnar Bethany. Trwy ras Duw, cafodd 'JTJ' ei ddefnyddio fel emynydd effeithiol ac fe ddaeth yn un o arweinwyr pennaf y diwygiad yn ardal Bethesda, Gwynedd, yn 1904/05.

Fe alwyd W. Nantlais Williams i fod yn weinidog ym mis Chwefror 1900, a'i uchelgais i ddechrau oedd bod yn bregethwr cyrddau mawr enwog a bardd llwyddiannus. Fe newidodd popeth ym mis Tachwedd 1904 pan wahoddwyd Joseff

Jenkins i gynnal cyfarfodydd pregethu ym Methany. Awgrymodd un o'r blaenoriaid y dylid cynnal wythnos o gyrddau gweddi, ac wrth i'r wythnos ddatblygu fe glywyd sŵn y canu a'r gweddio o'r capel drwy'r dref. Ar y nos Fawrth fe gododd merch ifanc i weddio a fe aeth y lle yn ferw, gyda phawb yn gweddio a molianu tan 2.30 y bore. Yn fwyaf rhyfeddol, cafodd Nantlais ei hun ei ddarostwng yn y cwrdd gweddi ar y nos Wener, a'r diwrnod canlynol trodd at yr Arglwydd Iesu mewn gwir edifeirwch a ffydd.

Mae'n anodd gor-ddweud dylanwad Diwygiad 1904/05 ar Fethany a thref Rhydaman. Un ffrwyth amlwg yw bod aelodau Bethany wedi gweld yr angen i sefydlu dau gapel arall, ym Mhantyffynnon a Thir-y-dail. Erbyn yr 1920au roedd dros 350 o aelodau ym Methany; roedd y nifer yn 500 adeg ymddediad Nantlais ym 1944.

Ym mis Hydref 1944 fe alwyd J. D. Williams yn weinidog, ac yn ddigon rhyfedd fe synhwyrodd ef hefyd fod y profiad o Dduw oedd gan nifer o aelodau Bethany yn ddieithr iddo. Ym 1946 fe drefnwyd ymgyrch efengyl gyda nifer o bregethwyr ifanc o ardal Llanelli. Wrth i Glyn Owen bregethu, 'cafodd y gweinidog', yng ngeiriau JD ei hun, 'ei gyffwrdd; ac o ganlyniad symudwyd ei anesmwythyd, a rhoddwyd sail fwy cadarn i'w bregethu, a symbyliad cryf i'w waith fel gweinidog'.

### 2. Pregethu beiblaidd a chynnes

Mae'n debyg bod pregethu grymus a chynnes â'i ffocws ar Iesu wedi dod yn un o brif nodweddion gweinidogaeth Bethany yng nghyfnod yr ail weinidog, Rhys Jones. Un o ffrwythau'r nodwedd hon yw'r nifer dda o weinidogion a fagwyd yno drwy'r degawdau, ac fe anfonwyd pedwar aelod i'r genhadaeth hefyd.

Roedd cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf yn enbydus yn Rhydaman fel ym mhobman, ond yng nghanol y tywyllwch fe sefydlodd



Llun o ddiwedd y 1950au

*Cofio canrif o waith Duw yng Nghapel Bethany, Rhydaman (parhad o dudalen 7)*

Nantlais Gynhadledd y Sulgwyn, a fyddai'n parhau tan ddechrau'r 21ain ganrif. Deuai Cristnogion o Rydaman, o Gymru a thu hwnt bob blwyddyn i wrando ar bregethwyr fel R. B. Jones, Dr Martyn Lloyd-Jones, John Stott, Gwynn Williams a John Blanchard.

### 3. Meithrin yr ifanc

Bu'r gwaith plant yn rhan bwysig o weinidogaeth Bethany ers y dechrau, gyda'r Gobeithlu ac ysgolion Sul yn llewyrchus am flynyddoedd lawer. Fel golygydd *Trysorfa'r Plant*, cafodd Nantlais gyfle i gyhoeddi ei emynau plant poblogaidd, gan gynnwys 'Beth yw mesur glas y nen?' a 'Suai'r gwynt'. Byddai'r gweinidogion eraill hefyd yn ymddiddori yn nhwysbrydol y bobl ifanc, ac mae ffrwyth hyn i'w weld hyd heddiw,

gyda rhai o blant ac 'wyrion' Bethany yn gwasanaethu'n ffyddlon mewn capeli ac eglwysi drwy'r wlad.

Cafodd cenedlaethau o bregethwyr ifanc y cyfle cyntaf i gamu i bulpud ym Methany; a derbyniodd nifer o weinidogion 'hyfforddiant pellach' yng nghapel Bethany hefyd drwy fod yn rhan o Frawdoliaeth Rhydaman yno.

### Lle i ddiolch

Fe ddechreuodd Bethany grebachu sawl blwyddyn yn ôl mewn gwirionedd, a hynny am nifer o resymau cymdeithasol ac ysbrydol. Ond fe welwyd rhai tröedigaethau hyd yn oed yn y cyfnod diwethaf, a chafodd sawl Cristion annwyl gynhaleaeth werthfawr.

Roedd tristwch yn yr Oedfa Datgorffori ar 26 Hydref, wrth gwrs, ond roedd yn gyfle hefyd i gofio mai yn Iesu, ac nid adeilad neu gapel, y mae gobaith y Cristion. Roedd yn fraint cael ein hannog gan ŵyr Nantlais,



y Parch. Athro Stephen Nantlais Williams, a gyfeiriodd ein meddyliu at Rufeiniaid 11:33–6, a geiriau godidog David Charles: 'Mae'n tynnu yma i lawr / yn codi draw'. 'Nid yw cau capel yn gyfystyr â gorffen y dystiolaeth,' meddai. Gweddiwn dros bawb sy'n dal i gyhoeddi efengyl Iesu Grist yn yr ardal. Mae ffrwyth yr efengyl a bregethwyd ym Methany i'w weld yn y nefoedd ac ar draws Cymru heddiw, ac i Dduw bo'r clod a diolch am hynny.

Steffan Jones

## Ffydd a Diwylliant

Mae hi'n nos Fercher arna i'n sgwennu hwn a dwi'n dal i wenu. Mae pedwar diwrnod wedi mynd heibio ers Eisteddfod Genedlaethol y Ffermwyr Ifanc ym Môn. Ddes i yn ôl i Aberystwyth yn wên o glust i glust – a dwi'n gwenu byth.

Dwi bob amser yn nodi'r Ffermwyr Ifanc fel y coleg pwysicaf i mi fod ynddo fo. Fûm i ddim yno mor hir â rhai. Mae llawer o nghyfoedion yn y mudiad wedi rhoi oes o wasanaeth iddo fo ac wedi magu cenedlaeth, os nad dwy, o aelodau newydd.

Mae cael ailymweld â'r gwreiddiau hynny yn rhannol gyfrifol am fy hwyliau da. Ond er mod i'n gartrefol, roeddwn i'n ddieithryn hefyd. Troi nghefn 'nes i, gyrfa drefol tu ôl i ddesg sydd gen i, gan milltir o 'adra', a dwi ddim, hyd yma, wedi llwyddo i fagu fy meibion yn yr un traddodiad.

Ond o'r tu allan ro'n i'n rhyfeddu. Rhyfeddu at yr hwyl, y ffraethineb a'r tynnu coes ond eto roedden nhw'n gwbl o ddifri a phroffesiynol. Herio traddodiad a'i barchu ar yr un gwynt. Roedd archwaeth at gymryd cyfrifoldeb.

Eisteddfod oedd hi a'i safon yn ddi-ail. Roedd rhai o enwau mawr y gwyliau cenedlaethol eraill yno, ond roedd yno enwau hefyd na fydddech chi byth yn eu gweld ar y llwyfannau hynny. Weithiau roedd yr enwau cyfarwydd yn ennill, dro arall doedden nhw ddim, ond roedd pob un yn driw i'r mudiad. Roedd yno gerdd dant ac adrodd ond roedd yno sgetsys a byrfyfyrion a rowlio chwerthin yn ogystal. Roedd y Saesneg yn gyfforddus yma ac acw, ond roedd y Gymraeg yn dawel hyderus mewn lliaws o dafodieithoedd cryf a lliwgar.

Roedd yno genedlaethau'n gweithio a joio drwy'i gilydd a'r seddi yn llawn o fore gwyn tan nos. Er bod yno bobl o bob oed, pobl ifanc oedd wrth y llyw. Criw bach o staff cyflogedig, llu o wirfoddolwyr. Roedd rhai hyn yn y cysgodion i gynnal eu breichiau os oedd angen, ond byth i ddal eu dwylo. Roedd patrwm bras wedi ei osod ers cenedlaethau ond patrwm bras oedd o ac nid dengair deddf.



Llun: Newyddion SAC

Ym Mhafiliwn Mona ar Faes Sioe Môn, Mared Fflur Roberts, o glwb Dyffryn Madog, Eryri, gipiodd y gadair, gydag Alaw Fflur Jones o glwb Felinfach, Ceredigion, yn fuddugol yng nghystadlaethau y goron

Patrwm oedd ag anwesu newid wrth ei galon. Mae'r mudiad wedi esblygu'n raddol ac wedi newid yn aruthrol. Mae o mor hyblyg nes dwi'n siŵr na allai unrhyw un oedd yno ddweud pryd newidiodd dim a digon hyblyg fel na thorodd o ddim wrth newid.

Roeddwn i'n teimlo'n hen ond yn falch ac yn genfigennus o'u hyder a'u Cymreictod braf.

Tybed faint ohonon ni all ddweud fod ein heglwysi ni wedi esblygu'n hyderus a hyblyg? Wedi newid o gwbl yn y deugain mlynedd diwethaf? Sy'n gweld aelod 55 oed yn hen? A'i phobl ifanc yn awchu am gyfrifoldeb ac yn ei ysgwyddo'n ysgafn a bodlon braf? A'i chynulleidfarn gweni bedwar diwrnod ar ôl troi am adra o bafiliwn llawn?

Allwn i fentro ateb, 'neb'?

Rywdro, methwyd gosod newid yng nghanol y patrwm, doedd hyblygrwydd ddim yn ei gyfansoddiad, aeth yn frau a methodd newid – neu fe dorodd wrth drio.

Rocet Arwel Jones

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[huw@cennad.cymru](mailto:huw@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru)



CennadCymru



@CennadCymru